

Meddyginiaeth syml

“Ond ceisiwch yn gyntaf deyrnas Dduw a’i gyfiawnder ef, a rhoir y pethau hyn i gyd yn ychwaneg i chwi.” (adn. 33)

Beth am ddarllen Mathew 6:25–34 ac yna myfyrio

Mae’n ddealladwy ein bod weithiau’n teimlo’n ddryslyd iawn wrth geisio atebion i’r pryderon dyddiol sy’n taflu cysgod dros ein bywydau, ac i’r penderfyniadau mae’n rhaid i ni eu gwneud. Gall nifer y dewisiadau sydd ar gael ar ein cyfer ein parlysu. Mewn ymgais ddiidwyll i blesio Duw, gallwn ein clymu ein hunain wrth geisio dod o hyd i’w arweiniad. Mae gorchymyn Iesu yn y darlleniad heddiw yn torri fel cyllell finiog drwy nifer o’r clymau sy’n cael eu creu gan ein penbleth ynglŷn ag arweiniad, ac yn chwalu llawer o’r dryswch sy’n bodoli ynglŷn â’r pwnc yma.

Wedi i’r diwinydd Gerald Sittser golli ei wraig, ei fam a’i ferch pedair oed mewn damwain gyrru ac yfed, ysgrifennodd un o’r llyfrau mwyaf gwefreiddiol a defnyddiol ar brofedigaeth a ysgrifennwyd erioed. Teitl ei gyfrol oedd *A Grace Disguised*. Yn fwy diweddar, mae wedi ysgrifennu *The Will of God as a Way of Life* lle mae’n myfyrio ar y profiad ac yn ceisio dygymod ag ef. Ynddo mae’n nodi ein bod eisoes yn gwybod beth ydy ewyllys Duw: mae’n cael ei gynnwys yn y gorchymyn dan sylw heddiw. Ynghanol cynifer o ddewisiadau, mae’n ysgrifennu: “Efallai ein bod yn dymuno i Dduw ddweud wrthym yn union beth i’w wneud, lle i fynd, a sut i ddewis. Eto, dydy Iesu ddim ond yn gofyn i ni wneud yn siŵr bod ein calon yn dda, ein cymhellion yn bur, a’n cyfeiriad sylfaenol yn gywir, yn anelu at deyrnas Dduw.” Mae Gerald Sittser yn mynd yn ei flaen, yn hollol gywir, i ddweud: “Gallwn, â chydwybod lân, ddewis o blith nifer o ddewisiadau rhesymol, a pharhau i wneud ewyllys Duw. Yn y pen draw, yr hyn sy’n bwysig ydy ceisio teyrnas a chyfiawnder Duw.”

Gall swnio’n rhy syml i ddweud hyn, ond mae’n wir er hynny: rhwch Dduw a’i ogoniant gyntaf ym mhob dim, ac ychydig iawn o anawsterau fydd gennych ynglŷn ag arweiniad dwyfol.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Salm 37:18–40; Math. 19:16–30

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Ynglŷn â beth mae’r salmydd yn hyderus?
2. Beth mae Iesu’n ei addo i’w ddisgyblion ffyddlon?

Gweddi

O Dad, dw i mor ddiolchgar fod gennyf feddyginiaeth syml ar gyfer popeth – syml ond nid yn rhy syml. Helpa fi i gydio ynddi. Yn enw Iesu. Amen.